

**WE ARE  
MACMILLAN.  
CANCER SUPPORT**

**'ROEDD GEN I  
FRIWIAU O DAN  
FY NHAFOD.  
DOEDDEN NHW  
DDIM YN GWELLA,  
FELLY ES I WELD MEDDYG.'**

Christine



**Mae dros 6,400 o bobl yn cael canser y geg yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae'n fwy cyffredin ymysg dynion a phobl dros 50 oed. Mae'r risg o ganser y geg yn uwch os ydych chi'n ysmegu, yfed alcohol a chnoi paan neu dybaco.**

Gallai gwybod pa newidiadau i gadw golwg arnynt a phryd i fynd i weld eich deintydd neu feddyg wneud gwahaniaeth mawr. Peidiwch â mynd i boeni os yw'r symptomau hyn gennych - ewch i weld rhywun.

Ewch i weld eich deintydd neu feddyg os oes gennych unrhyw rai o'r symptomau hyn am dair wythnos neu fwy:

- Briwiau yn y geg sydd ddim yn gwella.
- Patshyn coch neu wyn yn eich ceg.
- Tafod, ceg neu wddf dolurus sydd ddim yn gwella.
- Chwydd neu lwmp yn y geg neu'r gwddf.
- Llais yn gras neu newidiadau eraill i'ch llais.
- Anhawster llyncu neu gnoi.
- Teimlo bod rhywbeth yn sownd yn eich gwddf.
- Dim teimlad yn eich tafod neu ddarn arall o'ch ceg.
- Un neu ragor o ddannedd rhydd heb ddim rheswm.

Serch hynny, gall pethau eraill heblaw canser achosi'r symptomau hyn. Ond peidiwch â cheisio diagnosisio'ch hun - ewch i weld rhywun. Os oes gennych chi ganser, y cynharaf y caiff ei ganfod, y gorau yw'r cyfle y gellir ei drin yn llwyddiannus.

**Dydych chi ddim yn gwastraffu amser eich meddyg os ydych chi'n gofyn iddo archwilio'ch symptomau.**

**Y cynharaf y canfyddir canser y geg, y mwyaf tebygol y bydd y driniaeth yn llwyddiannus.**

Os oes angen cefnogaeth arnoch neu efallai sgwrs â rhywun, ffoniwch Macmillan am ddim ar **0808 808 00 00** neu ewch i **macmillan.org.uk**